**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

Cc Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

07 Ionawr 2025

Annwyl Mike

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo yn cael ei gynnal ddydd Llun 22 Ionawr rhwng 10.15am a 11.30am. Cynhelir y cyfarfod yn rhithiol a bydd yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar amlinellu blaenoriaethau pob un o'r pedair llywodraeth ddatganoledig ar gyfer polisïau diogelwch a mudo yn y dyfodol. Mae'r agenda yn caniatáu amser ar gyfer trafodaeth bord gron ar yr holl bynciau a amlinellwyd a bydd hyn yn cynnwys trafodaeth ar wella ymgysylltu a chydweithio yn y dyfodol.

Yn unol â'r cytundeb, bydd nodyn yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod a byddaf yn eich hysbysu am hyn maes o law.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip